

Gwybodaeth i Gleifion

Ceratoplasti Treiddiol (PKP)

Uned Llygaid



Beth yw PKP?

Triniaeth lawfeddygol lle mae cornbilen sydd wedi'i difrodi neu sy'n heintus yn cael ei thynnu a'i hamnewid â chornbilen rhoddwr iach yw **Ceratoplasti Treiddiol**, a elwir hefyd yn **"Trawsblaniad Cornbilennol Trwch Llawn"**. Bydd y rhoddwr yn rhywun sydd wedi rhoi caniatâd (neu y mae ei deulu wedi rhoi caniatâd) i ddefnyddio ei gornbilennau at ddibenion meddygol ar ôl ei farwolaeth.

Pam mae'r driniaeth yn cael ei chynnal?

Efallai y bydd PKP yn cael ei argymhell ar gyfer cleifion sydd â'r canlynol:

1. Ceratoconws (cam datblygedig).
2. Creithiau ar y gornbilen o ganlyniad i haint, trawma neu lawdriniaeth flaenorol.
3. Oedema cornbilennol neu ddystroffi endothelaidd Fuch's.
4. Dirywiadau neu ddystroffi'r gornbilen.
5. Grafftiad cornbilennol wedi methu yn y gorffennol.

Y Driniaeth:

- Cynhelir y llawdriniaeth o dan anesthetig lleol.
- Caiff rhan ganolog eich cornbilen ei thynnu.
- Mae cornbilen gan roddwr yn cael ei gosod a'i phwytho â phwythau mân iawn.
- Fel arfer, mae'r driniaeth yn cymryd rhwng 60 a 90 munud.
- Fel arfer, mae'n llawdriniaeth achos dydd, ond gall rhai cleifion aros dros nos.

Yr hyn i'w ddisgwyl ar ôl y llawdriniaeth:

- Efallai y bydd eich golwg yn aneglur i ddechrau, ond bydd yn gwella'n raddol dros ychydig fisoedd.
- Bydd angen i chi ddefnyddio diferion llygaid gwrthfotig a steroid am sawl mis.
- Gall pwythau aros yn eu lle am fisoedd lawer hyd at flwyddyn neu fwy.
- Mae ymweliadau dilynol rheolaidd yn hanfodol i fonitro iachâd a chanfod unrhyw gymhlethdodau yn gynnar.

Risgiau a Chymhlethdodau:

Fel gydag unrhyw lawdriniaeth, mae risgiau. Mae **cymhlethdodau posibl** yn cynnwys:

- Y grafftiaid yn cael ei wrthod (cochni, poen, colli golwg)
- Haint
- Pwysedd mewnlygadol cynyddol (glawcoma)
- Astigmatedd
- Problemau sy'n gysylltiedig â phwythau
- Grafftiaid yn methu

Mae rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw symptomau fel cochni, colli golwg cyflym neu boen yn hanfodol.

Cyfarwyddiadau Gofal ar ôl y Llawdriniaeth:

- ✓ Defnyddiwch ddiferion llygaid yn union fel y'u rhagnodir.
- ✓ Ceisiwch osgoi rhwbio eich llygad neu bwysu arni.
- ✓ Gwisgwch orchudd amddiffynnol, yn enwedig yn y nos am o leiaf 1-2 wythnos.
- ✓ Ceisiwch osgoi amgylcheddau llychlyd, nofio a chodi pwysau trwm.
- ✓ Ceisiwch osgoi gwisgo colur ger y llygaid a pheidiwch â golchi eich wyneb yn uniongyrchol.
- ✓ Ewch i bob un o'ch apwyntiadau dilynol fel y'i trefnwyd.

Amserlen Adferiad:

- Gall y rhan fwyaf o gleifion barhau â gweithgareddau ysgafn o fewn 1-2 wythnos.
- Bydd eich golwg yn gwella'n araf dros sawl mis i flwyddyn.
- Efallai y bydd angen sbectol neu lensys cyffwrdd arnoch ar ôl gwella.
- Efallai y bydd tynnu pwythau yn cael ei wneud yn raddol ar ôl 12 mis neu hyd yn oed yn ddiweddarach.

Cysylltwch â Thîm y Clinig Llygaid Brys (EEC) os ydych yn sylwi ar y canlynol:

1. Cochni/poen cynyddol neu sensitifrwyd i olau.
2. Colli golwg yn gyflym.
3. Rhedlif neu chwyddo.
4. Brychau neu oleuadau sy'n fflachio.

Gall y rhain fod yn arwyddion o gymhlethdodau megis y llygaid yn gwrthod y grafftiad neu haint sydd angen sylw ar unwaith.

Cwestiynau Cyffredin:

C: A fydd angen trawsblaniad arall arnaf yn y dyfodol?

A: Mae rhai grafftiadau yn para oes, tra bod angen ail-wneud eraill ar ôl sawl blwyddyn.

C: A fydd fy ngolwg yn berffaith ar ôl y llawdriniaeth?

A: Fel arfer, mae eich golwg yn gwella, ond efallai y bydd angen sbectol neu lensys cyffwrdd ac, mewn rhai achosion, triniaethau ychwanegol arnoch, i gael cywiriad llawn.

Cysylltwch â ni:

Ffôn EEC: 01633 - 238856 yn ystod diwrnodau/oriau gwaith.

Penwythnosau/Y Tu Allan i Oriau: Offthalmoleg ar Alwad drwy'r switsfwrdd: **01633- 234234**

E-bost (dim ond os oes angen cyngor arnoch):

EmergencyEyeClinic.abb@wales.nhs.uk

Mae eich Cynllun Diferion Llygaid fel a ganlyn:

Dylid rhoi'r diferion canlynol ar eich llygad ar ôl y llawdriniaeth, gan ddechrau'r bore ar ôl y llawdriniaeth:

Diferion Llygaid	Amser	Gweithred
Decsamethason PF (heb gadwoliau)	1 diferyn, 4 gwaith y dydd hyd nes y bydd cyngor pellach.	Gwrthlidiol
Cloramffenicol/ levofloxacin PF (heb gadwoliau)	1 diferyn, 4 gwaith y dydd am 4 wythnos.	Gwrthfotig
Cyclopentolad 1% PF	1 diferyn, 3 gwaith y dydd am 1 wythnos	Diferion lledu

Siart Cofnodi ar gyfer Diferion Llygaid Cloramffenicol:

1 diferyn o bob ffiol Cloramffenicol, 4 gwaith y dydd am **2** neu **4** wythnos.

(Cylchwch)

Cloramffenicol	08.30am	12.30pm	04.30pm	08.30pm
Diwrnod 1				
Diwrnod 2				
Diwrnod 3				
Diwrnod 4				
Diwrnod 5				
Diwrnod 6				
Diwrnod 7				
Diwrnod 8				
Diwrnod 9				
Diwrnod 10				
Diwrnod 11				
Diwrnod 12				
Diwrnod 13				
Diwrnod 14				
Cloramffenicol	08.30am	12.30pm	04.30pm	08.30pm
Diwrnod 15				
Diwrnod 16				
Diwrnod 17				
Diwrnod 18				
Diwrnod 19				
Diwrnod 20				
Diwrnod 21				
Diwrnod 22				
Diwrnod 23				
Diwrnod 24				
Diwrnod 25				
Diwrnod 26				
Diwrnod 27				
Diwrnod 28				

Siart Cofnodi ar gyfer Diferion Llygaid Decsamethason PF – am y mis 1af:

1 diferyn o bob ffiol Decsamethason, 4 gwaith y dydd hyd nes y bydd cyngor pellach.

Diwrnod	8am	12 pm	4pm	8pm
Diwrnod 1				
Diwrnod 2				
Diwrnod 3				
Diwrnod 4				
Diwrnod 5				
Diwrnod 6				
Diwrnod 7				
Diwrnod 8				
Diwrnod 9				
Diwrnod 10				
Diwrnod 11				
Diwrnod 12				
Diwrnod 13				
Diwrnod 14				
Diwrnod 15				
Diwrnod 16				
Diwrnod 17				
Diwrnod 18				
Diwrnod 19				
Diwrnod 20				
Diwrnod 21				
Diwrnod 22				
Diwrnod 23				
Diwrnod 24				
Diwrnod 25				
Diwrnod 26				
Diwrnod 27				
Diwrnod 28				

Byddwn yn dweud wrthyich beth yw eich trefn diferion llygaid ar gyfer Decsamethason ar ôl yr ymweliad adolygu cyntaf:

1 diferyn o bob ffiol Decsamethason, bob _____ am _____

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English”**

